**Stori wir ferch y balŵn ac Arddangosfa Fawr Caerdydd**

130 mlynedd yn ôl, croesawodd yr Arddangosfa Fawr filiwn o bobl i Gaerdydd dros gyfnod o chwe mis yn llawn arddangosfeydd, perfformiadau a rhyfeddodau.

Ymhlith yr atyniadau roedd technoleg fwyaf blaenllaw'r oes, gydag arddangosiadau trydanol trawiadol ochr yn ochr ag arddangosfeydd celf, casgliadau o anifeiliaid egsotig, neuadd gyngerdd â lle i 9,000 o bobl ac esgyniadau balŵn - digwyddiadau a oedd yn hynod boblogaidd ar y pryd. Roedd y balwnau a'r awyrennwyr oedd yn eu hedfan yn sêr eu dydd. Trefnwyd y digwyddiad awyr agored hwn gan yr awyrennwr Ffrengig enwog Auguste Eugène Gaudron, arloeswr a mentrwr eofn. Ei ddisgybl newydd, "Mademoiselle Albertina," oedd i gyflawni'r gamp.

Nid oedd balwnau 1896 yn debyg i'r rhai rydym yn eu hadnabod heddiw. Roedd yr esgyniadau hyn yn gampau hynod o beryglus. Byddai Mademoiselle Albertina yn cael ei chlymu wrth y balŵn gan raff denau, gan eistedd ar un bar metel yn unig. Wedi cyrraedd uchder o 10,000 troedfedd, byddai'n rhyddhau ei gafael ac yn disgyn yn ôl i'r ddaear gyda pharasiwt, wrth i'r dorf gymeradwyo'n frwd islaw.

Cyn oes awyrennau a nendyrau, ar ben mynydd oedd y man uchaf yr oedd y rhan fwyaf o bobl gyffredin erioed wedi'i gyrraedd. Felly, denodd esgyniad balŵn Mademoiselle Albertina dyrfa enfawr. Daeth miloedd ynghyd ym Mharc Cathays ac i doeon adeiladau cyfagos i wylio'r digwyddiad. Ond, bu trychineb. Hanner ffordd drwy'r esgyniad, newidiodd cyfeiriad y gwynt gan chwythu'r balŵn allan dros Fôr Hafren, gyda Mademoiselle Albertina yn dal i hongian islaw. Gwyliodd y dyrfa mewn arswyd wrth i'r balŵn droelli'n wyllt, a neb yn gallu gwneud dim i'w helpu.

Am ddyddiau, bu pobl Caerdydd yn chwilio am unrhyw arwydd o'r balŵn neu'r fenyw â'r parasiwt, ond roedd hi wedi diflannu. Yna, bedwar diwrnod yn ddiweddarach, golchwyd corff i'r lan ym Mhwynt Nash ger Casnewydd.

Yn ystod yr ymchwiliad i'r farwolaeth a ddilynodd, daeth i'r amlwg nad oedd Mademoiselle Albertina yn awyrennwr Ffrengig enwog o gwbl, ond yn ferch 14 oed o Fryste o'r enw Louisa Maud Evans. Roedd wedi dod i adnabod Auguste Eugène Gaudron wrth weithio fel morwyn i deulu a oedd yn berchen ar Syrcas a Menagerie Wombwell.

Honnodd Gaudron fod Louisa wedi ei ddilyn i Gaerdydd ac i'r Arddangosfa Fawr, gan erfyn arno am gyfle i esgyn mewn balŵn. Dywedodd ei fod yn credu ei bod yn 21 oed ac eisoes yn brofiadol mewn perfformiadau o'r fath. Pan ofynnodd pwyllgor yr Arddangosfa iddo ddarparu parasiwtydd benywaidd er mwyn denu torfeydd mwy fyth, cynigiodd i Louisa berfformio dan yr enw Mademoiselle Albertina am dâl bychan. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, nid oedd hi erioed wedi cymryd rhan mewn esgyniad balŵn o'r blaen ac nid oedd ganddi unrhyw hyfforddiant. Plentyn oedd hi.

Anfonodd Gaudron Louisa i'r awyr yng Nghaerdydd heb unrhyw ymarfer nac unrhyw fesurau diogelwch priodol yn eu lle. Cafodd ei geryddu a'i gosbi â dirwy o £5, ond erbyn yr wythnos ganlynol roedd eisoes yn Glasgow yn anfon merch ifanc arall i fyny mewn balŵn.

Ychydig iawn a wyddom am resymau Louisa dros gymryd rhan yn esgyniad balŵn Caerdydd. Ond os mai ei breuddwyd oedd cael ei gweld neu ennill enwogrwydd, yna yn sicr fe lwyddodd i adael ei hôl ar hanes. Newidiwyd y deddfau ynghylch plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau peryglus. Mynychodd dros 25,000 o bobl ei hangladd, ac mae Louisa wedi'i chladdu ym Mynwent Cathays, lle codwyd cofeb iddi drwy gyfraniadau gan bobl Caerdydd yn dilyn apêl gyhoeddus yn y Western Mail.

Er bod diwedd trasig i stori Louisa, mae Balloon Girl yn dewis dathlu ei bywyd, ei dewrder, ei hysbryd anturus a'i chwilfrydedd.

Roedd yr esgyniad balŵn yn rhan o arddangosfa a oedd yn dathlu datblygiadau technolegol a rhyfeddodau'r oes, ond rhaid i ni ofyn: ar ba gost? 130 mlynedd yn ddiweddarach, mae'r cwestiwn yn berthnasol o hyd.

Mae stori Louisa wedi ysbrydoli dramâu, llyfrau ac ymchwil fanwl i'w bywyd. Mae hyd yn oed grŵp o bobl yn ymgynnull wrth ei bedd bob blwyddyn ar ddiwrnod ei marwolaeth i gofio amdani.

Dyma ddau lyfr sy'n cynnig cipolwg pellach ar ei stori:

https://www.waterstones.com/book/the-balloon-girl/rosemary-chaloner/9780995482111

https://www.amazon.co.uk/Aerialists-historical-fiction-Today-bestseller/dp/0008473196